

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Swyddog Cyfathrebu

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.


Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.
Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.



# Ble rydym wedi'n leoli?

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Sir y Fflint**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**



**Teitl y swydd:** Swyddog Cyfathrebu



**Cyflog:** £29,269– £31,364

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Conwy**

**Dyddiad cau: 26/09/2024 10:00**

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ceisiwch**

# Pwrpas y swydd

Rydym yn chwilio am Swyddog Cyfathrebu ymroddedig a rhagweithiol i ymuno â Traffig Cymru, gwasanaeth Gwybodaeth traffig Llywodraeth Cymru. Mae Traffig Cymru yn cysylltu'r cyhoedd â Chanolfannau Rheoli Traffig Llywodraeth Cymru yng Nghonwy (Gogledd Cymru) a Coryton, ger Caerdydd (De Cymru).

Byddwch yn gyfrifol am wella prosesau cyfathrebu er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y gwasanaeth. Byddwch hefyd yn cynorthwyo i wella strategaethau cyfathrebu, gan ddarparu negeseuon clir a chyson sy'n cyd-fynd â gwerthoedd ac amcanion y gwasanaeth. Mae cyfathrebu rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol, ynghyd â'r gallu i ffynnu dan bwysau a chwrdd â therfynau amser tynn.

Byddwch yn arwain ac yn goruchwylio staff, gan sicrhau lefel uchel o gywirdeb ac yn talu sylw i fanylion ym mhob tasg. Byddwch yn gallu cydweithio'n effeithiol â'r tîm i sicrhau llwyddiant ymdrechion cyfathrebu Traffig Cymru.

Mae hwn yn gyfle gwych i gymhwyso eich creadigrwydd, sgiliau cyfathrebu a sgiliau trefnu mewn amgylchedd deinamig ac effeithiol.



# Cyfrifoldebau

- Cyfrifoldeb fel rheolwr llinell uniongyrchol ar gyfer Cydlynwyr Cyfathrebu Traffig Cymru.
- Trefnu rotas staff i sicrhau bod gofynion gweithredol y gwasanaeth yn cael eu cyflawni.
- Sicrhau hyfforddiant a datblygiad staff fel bod Cydlynwyr Cyfathrebu yn gwbl gymwys yn eu rolau.
- Goruchwylio'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn weithredol ar sail Cymru gyfan.
- Goruchwylio'r ymateb i ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd sy'n teithio trwy'r cyfryngau cymdeithasol, dros y ffôn neu e-bost, gan sicrhau bod lefel uchel o wasanaeth cwsmer yn cael ei gynnal bob amser.
- Sicrhau bod ymholiadau/cwynion yn cael eu cyfeirio at y partïon perthnasol yn unol â safonau'r gwasanaeth.
- Sicrhau bod Cydlynwyr Cyfathrebu yn creu cynnwys o ansawdd uchel ar gyfer cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol, diweddariadau gwefan, a sianeli cyfathrebu eraill yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt.
- Cefnogi gyda datblygu cynnwys gwasanaeth Traffig Cymru.
- Darparu cefnogaeth gyfathrebu ar gyfer gwahanol brosiectau a mentrau.




# Manylion Person

**Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.**

**Meini prawf penodol i'r swydd**

**Nodweddion personol:**

**Hanfodol**

- Y gallu i gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- Meddwl yn greadigol i ddatblygu strategaethau ac ymgyrchoedd cyfathrebu deniadol ac effeithiol.
- Y gallu i deilwra arddulliau cyfathrebu i wahanol gynulleidfaoedd.
- Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm.
- Hyfedredd wrth flaenoriaethu llwyth gwaith eich hun, arwain eraill a goruchwylio gwaith staff a reolir gan linell.
- Y gallu i fentro, gweithio dan bwysau ac i ddelio â therfynau amser llym.
- Lefel uchel o gywirdeb a sylw i fanylion ym mhob agwedd o waith.
- Parodrwydd i ofyn am adborth a gwneud gwelliannau.

## Cymwysterau a hyfforddiant personol:

### Hanfodol

- O leiaf pump TGAU neu gymhwyster cyfwerth.
- Profiad mewn cyfathrebu, cysylltiadau cyhoeddus, newyddiaduraeth, marchnata, neu faes cysylltiedig.
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn cyfathrebu, megis cyrsiau perthnasol, gweithdai, neu ardystiadau.

### Dymunol

- ILM Lefel 2 Sgiliau Arwain a Thîm
- NVQ Lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol mewn Cyfathrebu.
- Hyfedredd wrth ddefnyddio offer a meddalwedd cyfathrebu, megis systemau rheoli cynnwys, offer rheoli cyfryngau cymdeithasol, a meddalwedd dylunio graffig (ee, Adobe Creative Suite, Canva.)

## Profiad perthnasol:

### Hanfodol

- Y gallu i droi gwybodaeth gymhleth am weithgareddau a llwyddiannau Traffig Cymru yn straeon difyr sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd amrywiol.
- Profiad o greu gwahanol fathau o gynnwys, gan gynnwys adroddiadau, erthyglau, cylchlythyrau, a deunyddiau hyrwyddo.
- Profiad o greu a rheoli cynnwys proffesiynol ar gyfer gwefannau a sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- Gwybodaeth am reoli data mewn amgylchedd gwasanaeth cwsmeriaid.
- Profiad o weithio tuag at arferion sicrhau ansawdd sy'n berthnasol i gyfathrebu.
- Y gallu i ddatblygu a monitro dangosydd perfformiad allweddol i fesur a gwella perfformiad cyfathrebu.
- Profiad o reoli rota i gynnal y gwasanaeth.
- Profiad o ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys swyddogion y llywodraeth, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd yn gyffredinol.

### Dymunol:

- Profiad o reoli logisteg, hyrwyddo a gwerthuso sy'n gysylltiedig â digwyddiadau.
- Profiad o oruchwylio a/neu reoli llinell uniongyrchol

- Profiad o ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys swyddogion y llywodraeth, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Profiad mewn cysylltiadau â'r cyfryngau, gan gynnwys drafftio datganiadau i'r wasg a thrafod ymholiadau'r wasg.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol:

### Hanfodol

- Hyfedredd wrth ddefnyddio offer digidol a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- Dealltwriaeth o dueddiadau cyfathrebu digidol ac arferion gorau.
- Sgiliau rhyngbersonol cryf i adeiladu a chynnal perthnasoedd â chydweithwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.
- Dangos gallu i gyfieithu cynnwys yn gywir ac yn effeithiol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyd-destun egwyddorion Cymraeg Clir a 'Plain English'.
- Yn gyfarwydd â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data.
- Ymwybyddiaeth o strwythurau llywodraeth leol a chanolog, ynghyd â gwerthfawrogiad o'u gofynion cyfathrebu.

### Dymunol

- Dylunio graffig, cynhyrchu fideo a sgiliau golygu.

## Anghenion Ieithyddol

### Hanfodol

Gwrando a Siarad - Lefel Uwch: Gallu dilyn sgwrs neu drafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar lefel broffesiynol a thrafod pynciau cyffredinol bob dydd yn y maes er mwyn cyflwyno gwybodaeth a mynegi barn. Gallu darparu cyflwyniad wedi'i baratoi o flaen llaw ac ymateb i unrhyw sylwadau a chwestiynau arno drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Darllen a Deall - Lefel Uwch: Gallu deall Cymraeg a Saesneg ysgrifenedig safonol, ffurfiol ac anffurfiol. Medru casglu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau megis llythyrau, adroddiadau, erthyglau, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn cyflawni'r swydd.

Ysgrifennu - Lefel Uwch: Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig gyda hyder ar ffurf llythyr, adroddiad mwy manwl a thechnegol ac ymateb i geisiadau ysgrifenedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

## Anghenion Ychwanegol

### Hanfodol

- Gofyniad i weithio nifer rhesymol o oriau ychwanegol i sicrhau bod gwasanaeth Traffig Cymru yn cael ei gwmpasu.
- Gofyniad i ffurfio rhan o'r rota ar ddyletswydd i gynorthwyo gyda chyfathrebu y tu allan i oriau 7pm-7am.

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu ein staff:



- 27.5 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8 diwrnod o wyliau banc.
- Oriau gweithio hyblyg.



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith.
- Arbedion ar siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy.



- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.



- Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.